# Is-bwyllgor Datblygu Gwledig

## Cofnodion (RDC(3)-06-07)

**Dyddiad: 8 Tachwedd 2007**
**Amser: 10:30 - 12:20**
**Lleoliad: Ystafell Bwyllgora 3, Y Senedd, Bae Caerdydd**

### Aelodau'r Cynulliad yn bresennol

Alun Davies (Cadeirydd), Canolbarth a Gorllewin Cymru
Lorraine Barrett, De Caerdydd a Phenarth
Mick Bates, Sir Drefaldwyn
Alun Ffred Jones, Arfon
Brynle Williams, Gogledd Cymru

### Y Gwasanaeth Pwyllgorau

Virginia Hawkins, Clerc
Joanne Clinton, Dirprwy Glerc

### Eraill yn bresennol

Elin Jones AC, y Gweinidog dros Faterion Gwledig
Norma Barry, Pennaeth yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad
Huw Brodie, Cyfarwyddwr, Adran Materion Gwledig
Christianne Glossop, Prif Swyddog Milfeddygol
Rory O'Sullivan, Pennaeth, yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad
Sian Andrews, Tîm Cyllid, Uned Materion Gwledig a Threftadaeth

### Eitem 1: Cyflwyniad, Ymddiheuriadau a Dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

### Eitem 2: Yr Is-bwyllgor Datblygu Gwledig yn craffu ar y Gyllideb Ddrafft 2008/09

2.1 Bu i Brynle Williams ddatgan buddiant fel ffermwr.

2.2 Croesawodd y Cadeirydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig a'i swyddogion i'r cyfarfod a gwahoddodd hi i roi sylwadau rhagarweiniol mewn perthynas â'r portffolio materion gwledig yn y Gyllideb Ddrafft 2008/09. Gwahoddodd y Cadeirydd sylwadau a chwestiynau gan Aelodau.

2.3 Cytunodd y Gweinidog i ddarparu dadansoddiad manwl o'r gwariant a ddarparwyd gan DEFRA ar iechyd anifeiliaid yng Nghymru, ynghyd ag esboniad a oedd yr arian presennol ar gyfer profion gama-interfferon wedi'i gynnwys yng nghyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru neu gyllideb DEFRA. Cytunodd y Gweinidog ymhellach i ddarparu manylion am y math o brosiectau a ariannir trwy'r llinell wariant yn y gyllideb ymchwil a gwerthuso, ac i roi esboniad a dadansoddiad o'r ffigurau yng nghyllideb Tir Cymru.

### Eitem 3: Ymchwiliad i TB yng Nghymru: adroddiad cynnydd

3.1 Gwahoddodd y Cadeirydd y Gweinidog dros Faterion Gwledig i gyflwyno'i hadroddiad cynnydd mewn cysylltiad â TB yng Nghymru. Cafodd yr Aelodau eu gwahodd i roi sylwadau ac i holi'r Gweinidog.

3.2 Cytunodd y Prif Swyddog Milfeddygol i ddarparu adroddiad i'r Pwyllgor ar seminar mewn cysylltiad â TB mewn gwartheg yng Ngweriniaeth Iwerddon yn ddiweddar.